**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 15 Mawrth 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Seamus Brennan | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Y Cynghorydd June Burtonshaw | Cyngor Abertawe |
| Capten Chris Evans MBE | Catrawd Trafnidiaeth Cymru |
| Arweinydd Sgwadron Phil Flower MBE | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Steve Fry | Dirprwy Raglaw |
| Grace Halfpenny | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Thomas Hall | Blesma |
| Jeremy Jenkins | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Paul Jones | STOMP |
| Natalie McCombe | The Poppy Factory |
| Finola Pickwell | Hafal |
| Adrian Rabey | Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig |
| Tom Sloan | Rygbi'r Gweilch |
| Yasmin Todd | Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol – Plant Milwyr (Gorllewin Cymru) |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Tîm Perfformiad - Yr Adran Addysg |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Ronan Ruddy | Rheolwr Cydlynu Ardal Leol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Alyx Baharie, Louise Fleet a/ac Peter Neville

---

## 98 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

## 99 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Panel a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.

## 100 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.

Adroddodd Yasmin Todd a Rhodri Jones ymhellach i'r adroddiad a ddosbarthwyd a oedd yn amlinellu manylion cefndir a gwybodaeth ynghylch cyflwyno'r cynllun Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru, gan amlinellu bod 96 o blant bellach wedi'u nodi gan yr adran addysg yn Abertawe.

Amlinellwyd y bydd grant Llywodraeth Cymru eleni yn cael ei ddefnyddio i gynnal ymarfer hyfforddi/cynyddu ymwybyddiaeth staff ar gyfer aelod o staff o bob un o'r 30 ysgol y nodwyd bod ganddynt blant milwyr, gyda'r gweddill yn cael ei dargedu at y myfyrwyr eu hunain.

Darperir diweddariadau rheolaidd ar y cynllun i'r Panel mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 101 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Dywedodd Grace Halfpenny fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddai Diwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin eleni ar-lein unwaith eto.

Nododd fod y gyfran ddiweddaraf o gyllid ar gyfer Cyfamod y Lluoedd Arfog newydd gael ei rhyddhau. Nododd Finola Pickwell ei bod yn gallu cynnig cymorth anffurfiol gyda cheisiadau pe bai angen.

Cyfeiriodd Grace at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ynghylch sefydlu Comisiynydd Cyn-filwyr yng Nghymru. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn debygol o gyhoeddi deddfwriaeth ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer cwmpasu yn dilyn mewnbwn a gwybodaeth a gyflwynwyd gan y swyddogion cyfamod ledled Cymru. Mae 2 is-grŵp newydd wedi'u sefydlu a bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu drwy gylchlythyr cyn bo hir.

Cafwyd trafodaeth ynghylch rheoli a monitro atgyfeiriadau rhwng sefydliadau, a'r angen posib i ddatblygu protocol i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu monitro'n briodol ac nad ydynt yn cael eu "colli" yn y system.

## 102 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Dywedodd y Capten Chris Evans  fod y cronfeydd wrth gefn yn parhau â hyfforddiant rhithwir yn unol â phrotocolau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae recriwtio hefyd yn parhau ar-lein.

Nododd fod gan Gatrawd 157 5 swyddog ar hyn o bryd sy'n cefnogi byrddau iechyd ledled Cymru, ac mae'r holl wasanaethau'n parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru yn yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r pandemig parhaus.

Amlinellodd fod Catrawd 157 wedi cynnal cyflwyniad ar-lein yn ddiweddar i'r Arglwydd Raglaw a'i 6 dirprwy.

Yna cyhoeddodd mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf o'r Panel gan ei fod yn ymddeol o'r Fyddin ym mis Mai ar ôl 41 mlynedd o wasanaeth. Diolchodd i aelodau'r Panel am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Diolchodd y Cynghorwyr Wendy Lewis a June Burtonshaw, Phil Flower, Grace Halfpenny ynghyd â holl aelodau eraill y panel i Gapten Chris a thalwyd teyrnged iddo am ei waith caled, ei ymroddiad a'i gefnogaeth i'r Panel, y Cadetiaid a'r lluoedd arfog wrth gefn dros y blynyddoedd, a dymunodd yn dda iddo am ymddeoliad hir ac iach.

## 103 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.

Nid oedd unrhyw gynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 104 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.

<u>Yr Arglwydd Raglaw</u>
Amlinellodd Steve Fry, Dirprwy Raglaw fod yr Arglwydd Raglaw yn awyddus iawn i gymryd rhan a chefnogi grwpiau a sefydliadau elusennol cyn-filwyr lleol ym mha ffordd bynnag y gall, a gofynnodd i grwpiau gysylltu ag ef i drafod unrhyw bresenoldeb posib mewn digwyddiadau a chymorth etc.

Y Gweilch/Yr Elyrch
Nododd Tom Sloan fod y sesiynau "in the squad - stand easy" ar-lein i gyn-filwyr yn parhau ar-lein ar hyn o bryd a nododd y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth berthnasol ar ôl y cyfarfod.

<u>Hafal</u>
Amlinellodd Fiona Pickwell fod 2 brosiect newydd yn cael eu datblygu gan ei sefydliad ar gyfer cyn-filwyr sy'n ymwneud â Sgiliau Digidol a Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol.

Dywedodd y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth berthnasol yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd Tom Hall ac Adrian Rabey eu bod yn awyddus i gynorthwyo'r prosiectau drwy eu rhwydweithiau gwirfoddolwyr a thrwy Veterans TV os oedd angen.

<u>Y Lleng Brydeinig Frenhinol</u>
Amlinellodd yr Arweinydd Sgwadron Phil Flower fod enwebiadau cadetiaid yr Arglwydd Faer a'r Maer wedi cyrraedd y rhestr fer ac y byddent yn cael eu trosglwyddo i'r swyddfeydd perthnasol cyn bo hir i'w hystyried.

Mae'r holl weithgareddau gyda chadetiaid yn aros ar-lein ar hyn o bryd, tra'n aros i Lywodraeth Cymru lacio'r cyfyngiadau.

Nododd fod y Lleng Brydeinig Frenhinol wedi cynllunio llawer o ddigwyddiadau pen-blwydd, ond ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y cynigion. Byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Panel pan fyddai'r penderfyniadau wedi'u gwneud.

Cyngor Abertawe
Amlinellodd y Cynghorydd Wendy Lewis nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ar Sioe Awyr eleni ar hyn o bryd, ac mae'r awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y mater.

**105 Ethol Is-gadeirydd**

Gofynnodd y Cynghorydd Wendy Lewis yn dilyn ymddiswyddiad yr is-gadeirydd, am enwebiadau ar gyfer ei olynydd.

Enwebwyd, cefnogwyd ac etholwyd Arweinydd Sgwadron Phil Flower.

Derbyniodd swydd yr is-gadeirydd a diolchodd i'r Panel am ei benodiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.40 pm

**Cadeirydd**